
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 960 (Cy. 214)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes
(Estyn Gwarchodaeth rhag
Fforffediad etc.) (Cymru)
(Coronafeirws) (Rhif 2) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol (“relevant period”). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r “relevant period” fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/606 (Cy. 140)) y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020.

O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 31 Rhagfyr 2020.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 960 (Cy. 214)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes
(Estyn Gwarchodaeth rhag
Fforffediad etc.) (Cymru)
(Coronafeirws) (Rhif 2) 2020**

Gwnaed 7 Medi 2020

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 9 Medi 2020

Yn dod i rym 30 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Medi 2020.

Estyn y cyfnod perthnasol sy'n darparu gwarchodaeth rhag fforffediad etc.

2. At ddibenion adran 82 (tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc.) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, mae'r "relevant period", fel y'i diffinnir yn is-adran (12) o'r adran honno yn dod i ben, o ran Cymru, ar 31 Rhagfyr 2020.

(1) 2020 p. 7.

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020(1) wedi eu dirymu.

Lee Waters

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
7 Medi 2020

(1) O.S. 2020/606 (Cy. 140).